| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 3. Creu dadansoddiad o gymeriad Grandpa (CA2)<br>**Bydd angen dwy sesiwn i gwblhau'r gwaith hwn, mae'n debyg.** |
| Disgrifiad: | Darllen ac ysgrifennu - Gan ddefnyddio cliwiau o destun, creu mat cymeriad ac yna dadansoddiad o Grandpa |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd**<br>*Darllen a deall:<br>Bl3:<br>• nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun.<br>• dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant.<br>Bl4:<br>• nodi'n gywir y prif syniadau a'i wybodaeth atebol mewn testunau<br>• dod i gasgliad ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng gwybodaeth.<br>Bl5:<br>• dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau.<br>• dehongli ystyr nad yw wedi'i ddatgan yn bendant.<br>Bl6:<br>• dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant.<br><br>*Ymateb a dadansoddi:<br>Bl3:<br>• defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu.<br>Bl4:<br>• dewis a defnydido gwybodaeth a syniadau o destunau.<br>Bl5:<br>• dehongli'r hyn y mae'r awdur yn ei feddwl am y pwnc.<br>Bl6:<br>• cydgasglu a gwneud cysylltiadau.<br><br>**Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>*Ystyr, dibenion, darllenwyr<br>Bl3:<br>• nodi syniadau i'w defnyddio wrth ysgrifennu.<br>Bl4:<br>• casglu syniadau i gynllunio ysgrifennu.<br>Bl5:<br>• defnyddio technegau wrth gynllunio gwaith ysgrifennu.<br>Bl6:<br>• defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gynllunio ysgrifennu. |

| | |
|---|---|
| Testun Dylan Thomas | A Visit to Grandpa's<br>Darn o ddechrau tudalen 33 (*...into the fields on Llanstephan Road.)* |
| Offer angenrheidiol: | • Copïau o'r testun<br>• Mapiau cymeriad *Atodiad 1a* a *1b*<br>• Uwcholeuydd |
| Trefn a awgrymir: | • Ewch yn ôl at y testun a sôn am y ddau gymeriad yn y stori.<br>• e.e.<br>"…voice sounded young and loud…"<br>"…lit his pipe under the blankets…"<br>"…white flannel nightshirt…red waistcoat with walnut-sized brass buttons."<br>"…pipe smouldered amongst his whiskers…"<br>• Wedyn mae'r dysgwyr yn defnyddio'r mat cymeriad (*Atodiad 1*) i fapio'r hyn y mae'n ei wneud, sut mae'n edrych, ei bersonoliaeth ac ati.<br>• Gan ddefnyddio'r mat fel cynllun, mae'r dysgwyr yn mynd ati wedyn i ysgrifennu dadansoddiad o Grandpa, gan ddefnyddio dyfyniadau o'r testun i gefnogi eu barn. Gofynnwch i'r dysgwyr 'Beth allwch chi ei gasglu o'r testun?' a 'Pa mor effeithiol yw'r delweddau y mae Dylan Thomas yn eu defnyddio i ddisgrifio Grandpa?" Efallai y bydd y dysgwyr yn gallu cyfeirio at gyffelybiaethau a throsiadau yn y testun. |
| Gweithgareddau estyn: | Modelu graffeg: Ystafell wely Grandpa. Gallai'r dysgwyr ddefnyddio uwcholeuydd o liw gwahanol i ddod o hyd i dystiolaeth yn y testun o iaith sy'n disgrifio lle. Efallai y gallent ddefnyddio'r dystiolaeth honno wedyn i dynnu llun Grandpa yn ei ystafell wely.<br><br>Defnyddio'r cyfryngau digidol: Gallai'r dysgwyr greu podlediad (*Audacity* neu *Garage Band*) o'u dadansoddiad o Grandpa. Gellid defnyddio eu delweddau mewn *iMovie* neu fel cefndir mewn ap *Puppet pals*. Gellid defnyddio ap *Artrage* i greu darlun o Grandpa neu *Wordfoto* neu *Typedrawing*. Gellid marcio'r testun gan ddefnyddio ap *Skitch* . |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Efallai y bydd angen mwy o gymorth ar ddysgwyr yng ngwaelod CA2 i ddod o hyd i dystiolaeth ar gyfer y dadansoddiad ac felly gallai hwn fod yn weithgaredd i'r dosbarth cyfan. Byddai marcio'r testun gyda'ch gilydd yn helpu'r dysgwyr i ddeall unrhyw iaith sy'n gymhleth. Hefyd gallai gwaelod CA2 ddefnyddio'r Mat Cymeriad symlach. |